Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 07/12/17 i'w hateb ar 12/12/17

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Prif Weinidog

Lee Waters *Llanelli*

1 OAQ51489

Pa fesurau sydd ar waith i graffu ar y cynlluniau y mae awdurdodau lleol yn eu cyflwyno o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

2 OAQ51454

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

David Melding *Canol De Cymru*

3 OAQ51476

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth iechyd meddwl yn y gweithle yng Nghymru?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

4 OAQ51484

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo gweithio ar y cyd rhwng y sector iechyd a'r sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru?

Hefin David *Caerffili*

5 OAQ51491

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun cyflawni ar gyfer Ein Cymoedd, Ein dyfodol?

Simon Thomas *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OAQ51486 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer datganoli pwerau dros ynni o dan Ddeddf Cymru 2017?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

7 OAQ51445 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n gyfystyr â siaradwr Cymraeg yn y cynlluniau i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Sian Gwenllian *Arfon*

8 OAQ51475 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pryd y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ddyddiad cychwyn adeiladu cynllun ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon?

Neil McEvoy *Canol De Cymru*

9 OAQ51464

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae cod y Gweinidogion yn darparu atebolrwydd mewn perthynas â gweithredoedd aelodau'r cabinet?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

10 OAQ51461

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i wella cyfleoedd gwaith i drigolion Cwm Cynon?

David Rees *Aberafan*

11 OAQ51487

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella symudedd cymdeithasol yng Nghymru?

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

12 OAQ51490

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darpru adnoddau ar gyfer newid trawsnewidiol a nodwyd yn y sector cyhoeddus?

Leanne Wood *Rhondda*

13 OAQ51488

Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud yn ddiweddar am ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

14 OAQ51482 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o ofal iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg?

Neil Hamilton *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

15 OAQ51460

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ariannol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?